COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ebrill 10fed, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, G. Ian Evans, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Aelod Lleol – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

John Gwilym Jones, Cyng. John B. Hughes (Aelod Lleol – Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganwyd buddiant gan:

- Cynghorydd Owi Lloyd-Jones yng nghais C19/0262/39/CC - Torri dwy goeden dan Orchymyn Diogelu Coed - Gorsaf Bad Achub RNLI, Lôn Pont Morgan, Aber-soch, oherwydd ei fod yn berchennog iard gychod ar y terfyn
- Cynghorydd Dylan Llwyd yng nghais C19/0303/39/LL - Diwygio Amodau 2 (Unol â'r Cynlluniau) ac 8 (Cynllun Tirlunio) ar Ganiatâd Cynllunio C13/1255/39/LL er mwyn rheoleiddio gwaith nad yw'n unol â'r cynlluniau a ganiatawyd - Pant Gwyn Farm Caravan Park, Sarn Bach, oherwydd ei fod yn cadw carafanau ei hun.

Gadawont y cyfarfod pan drafodwyd y ceisiadau.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 13eg, 2019 yn gywir ar ôl cywiro cofnod 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau l) Tenovus dderbyniodd y cyfraniad yn hytrach nag Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/0089/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Trosi llofft gan adeiladu dwy ffenestr gromen i'r prif edrychiadau – Lleifior, 12 Maes Awel, Aber-soch **– Caniatawyd eisoes. Cefnogwyd ar sail penderfyniad aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio**
C19/0232/39/LL	Ffenestr gromen gefn – Garreg Wen, Llanengan – **Cefnogir**
C19/0252/39/MG	Materion a gadwyd yn ôl i adeiladu tŷ – Tir ger Berthwen,

	Bwlchtocyn **– Cefnogir**
C19/0256/39/LL	Dymchwel modurdy ac adeiladu un newydd ag ystafell chwarae uwchben - Penmôr, Lôn Golff, Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ac y gallai goredrych cymdogion. Hefyd, cedwir at yr un sylwadau a roddwyd yng nghais C18/0379/39/LL sef, gallasid troi'r modurdy'n dŷ wrth greu ystafell uwchben a cheisio'i werthu maes o law. O ganlyniad, awgrymwyd y dylid gosod amod na ellid gwneud hynny, h.y. rhaid ei werthu â'r tŷ**
C19/0262/39/CC	Torri dwy goeden dan Orchymyn Gwarchod Coed - Gorsaf Bad Achub RNLI, Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Cefnogir ar yr amod y plennir dwy goeden sylweddol eu maint yn eu lle [Datgan Diddordeb – OLJ]**
C19/0275/39/LL	**Cais Diwygiedig -** Cwt glan môr (dyluniad diwygiedig i Ganiatâd C18/1049/39/LL) - Cwt Glan Môr Traeth Marchros, Bwlchtocyn **- Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ar safle amlwg, gan y saif ar ei ben ei hun. Hefyd, mae'n llawer rhy uchel - dwbl yr un gwreiddiol. Gofynnwyd, gan ddymchwelwyd hwnnw eisoes, a wnaed hynny o fewn y pum mlynedd yn dilyn caniatáu cais C12/1299/39/LL? Os felly, a yw'r cais diwygiedig hwn yn ddilys?**
C19/0284/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le - Tlysfan, Bwlchtocyn **- Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad o ddymchwel byngalo i godi tŷ nad yw'n gweddu â thai cyfagos**
C19/0303/39/LL	Diwygio Amodau 2 (unol â'r cynlluniau) ac 8 (cynllun tirlunio) ar ganiatâd cynllun C13/1255/39/LL er mwyn rheoleiddio gwaith nad yw'n unol â'r cynlluniau a ganiatawyd – Pant Gwyn Caravan Park, Sarn Bach **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – DLl]**
C19/0333/39/LL	Dymchwel estyniad, modurdy a siale presennol a chodi estyniad deulawr cefn a modurdy ar wahân – Heulwen, Llangian **– Cefnogir gan nad oes modd eu gweld o'r ffordd**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

b) **13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-fi Cymunedol Cyhoeddus**
Ni lwyddwyd trefnu'r cyfarfod ar y cyd â'r Gymdeithas Masnachwyr a Swyddogion Menter Môn. Derbyniwyd gohebiaeth bellach parthed y costau ac, o ganlyniad i'r diffyg sôn am rai ar ôl yr ail flwyddyn, penderfynodd y Gymdeithas beidio â pharhau â'r cynllun. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd peidio â pharhau oherwydd mai rhywbeth i bentref Aber-soch ydoedd yn fwy nac i'r gymuned gyfan. Hysbysir y bwriad o osod wi-fi ym Mhwllheli ym Mwletin mis Ebrill Un Llais Cymru.

c) **13. Gohebiaeth: c) O Ddrws i Ddrws – Cais am Ariannu Gwasanaeth i Drigolion Plwyf Llanengan**
Derbyniwyd gair o ddiolch oddi wrth Meinir Jones, Swyddog O Ddrws i Ddrws, am y cyfraniad.

ch) **13. Gohebiaeth: e) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Wythnos Recriwtio**

Derbyniwyd ateb i'r mynegi pryder am orsaf Aber-soch. Naw diffoddwr tân 'ar alw' sy'n ei staffio ac mae ganddynt swyddi eraill. Recriwtir diffoddwyr tân ar alw yn barhaus ac, ar hyn o bryd, mae dau ymgeisydd yn mynd drwy'r broses ddethol mewn ymgais i wella niferoedd yr orsaf.

d) **13. Gohebiaeth: dd) Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Odyn Galch, Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb ar ôl gofyn i'r Adran dorri'r tyfiant.

7. **MYNWENT –** Deallwyd y gosodwyd y fainc erbyn hyn.

8. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**

i) ***Cae Aber-soch***
Derbyniwyd cwyn am gyflwr y goliau a phenderfynwyd archebu rhai newydd a mainc â chymynrodd y diweddar Mrs. Elisabeth Jones. Cysylltir â Huw Jones, Rhydyclafdy; Arwel Owen, Gilfach, Chwilog, a Brady, Tudweiliog, am amcanbris.

ii) ***Trac Beicio Mynytho***
Derbyniwyd y pris newydd (£16535.00 + TAW) yn dilyn y cyfarfod safle â chynrychiolwyr Caloo. Cyfarfu'r Is-bwyllgor i'w drafod ac, o ganlyniad, penderfynwyd ei dderbyn, gan ei fod yn rhatach na'r gwreiddiol.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd yr adroddiad a phenderfynwyd gofyn i Adam Wildewood (a daclusodd y coed ar ôl y fandaleiddio) am bris i dorri'r coed, yn unol â'r awgrymiadau.
Derbyniwyd cais gan Sefydliad y Merched Aber-soch i blannu coed fel rhan o gynllun cenedlaethol – heb dderbyn ateb oddi wrth Paolo Bavaresco ar ôl gofyn ei farn am ba goed a fyddai'n addas.

c) **Paentio'r Offer**
Ni ymatebodd y contractwr i'r llythyr a anfonwyd ato parthed paentio arhosfan bws Parciau Mynytho – na derbyn ei anfoneb. Dywedodd y Cadeirydd y cysylltai ag o.

ch) **Siôn Bryn Roberts – Cais gan y Gwasanaeth Ieuenctid**
Cais i ddefnyddio Cae Chwarae Aber-soch am gyfnod o chwech i wyth wythnos am ddwy awr bob nos Fercher ar gyfer prosiect â phobl ifanc ardal Abersoch (ymgysylltwyd â 13); dim gwrthwynebiad.

9. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol 2018 – 2019**
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi mai'r flwyddyn ariannol gyfredol fydd yr olaf i BDO ei harchwilio. Cyflwynwyd cais ad-daliad TAW am y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Derbyniwyd y ddogfennaeth ar gyfer yr archwiliad – dyddiad cymeradwyo yw Mehefin 30ain.

b) **Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth drigolyn yn pryderu am gyflwr mainc Bwlchtocyn - fe'i tynnwyd erbyn hyn gan EWR (diolchwyd iddo). O ganlyniad, penderfynwyd archebu dwy fainc (Elwood £609.97 + TAW) oddi wrth gwmni Glasdon ar ôl cymharu prisiau gwahanol gwmnïau. Ymddiheurodd Cyng. Dewi W. Roberts nad anfonodd e-bost a dderbyniodd oddi wrth ymwelydd â'r ardal a ddymunai osod mainc er cof am ei Mam. Awgrymwyd cysylltu â hi i ofyn a fyddai'n ystyried prynu neu gyfrannu at un ohonynt.

c) **Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**
Derbyniwyd llythyrau diolch oddi wrth bawb.

10. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
- Ni dderbyniwyd ymateb i'r holl ymholiadau a wnaed dros y misoedd diwethaf ar wahân i un yr Hen Iard Lo, Aber-soch. Ymddiheurwyd am yr oedi cyn ateb. Er yr ysgrifennwyd at asiant y perchennog i'w atgoffa o'r cyfyngiad amser (Mawrth 1af - Hydref 31ain), ni dderbyniwyd ymateb. Anfonwyd llythyr yn cynnwys rhagrybudd o'r bwriad o gyflwyno rhybudd gorfodaeth yn erbyn y tor-rheolaeth tymhorol os digwydd yr un peth yn ystod y tymor caeedig nesaf.
- Ni dderbyniwyd ymateb pellach oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru parthed The Shanty ychwaith.

b) **Cymorth Cynllunio Cymru – Cyflwyniad i'r System Gynllunio yng Nghymru**
Adroddodd y Clerc nad oedd yr hyfforddiant y gorau a gyflwynwyd gan yr hyfforddwr; mynegwyd mai trafod cynlluniau datblygiadau mawr trefol a wnâi fwyaf yn hytrach na cheisiadau unigol.

c) **Apêl Cwt Glan Môr Rhif 2 Borth Fawr, Aber-soch**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor at yr Arolygwr Cynllunio eisoes.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Bin Baw Ci ym Marchros**
Ail-anfonwyd y cais yn gofyn i'r Adain Fwrdeistrefol osod bin newydd/ ychwanegol yn y maes parcio, gan mai dim ond un o rai'r Cyngor hwn sy'n weddill.
Adroddodd y Clerc, er gwybodaeth, y cysylltodd â pherchennog Pen Cei, Aber-soch, i ofyn i'w adeiladwyr adfer y bin baw ci a faluriwyd wrth wneud y gwaith ar ei dŷ; fe'i adferwyd ond, deil tu ôl i'r ffens.

b) **Cais am Olau Stryd yn Stad Sant Tudwal, Mynytho**
Derbyniwyd ateb drannoeth pwyllgor mis Mawrth yn dweud nad yw'r Adran Golau Stryd yn gosod polion newydd oni bai eu bod yn rhan o gynllun. Gofynnir i Gynghorau Cymuned dalu costau gosod y golau cyn i Wynedd gymryd cyfrifoldeb ohono. O ganlyniad, derbyniwyd pris (£1134.00 + TAW) ar gyfer yr uchod; penderfynwyd ei dderbyn.

c) **Biniau Halen**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni ymatebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i'r cynnig o ymweld ag o ym Mhwllheli i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau.
Ni lwyddwyd hysbysebu'r tendr yn *Llanw Llŷn* – gwneir mis nesaf, gan fod amser cyn dechrau eu torri ym mis Mehefin.

b) **Llwybr Shanty, Pen Bennar**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Aelod o'r Cyngor yn mynegi pryder am gyflwr y llwybr o ganlyniad i'r gwaith datblygu ar yr uchod – fe'i harchwilir.

c) **Llwybr y Morwyr (Rhif 42 a 51)**
Hysbyswyd yr Adran Hawliau Tramwy fod nant rhwng lôn Pant y Wennol a Llwybr 51 wedi gorlifo rhyw ddwy neu dair llath yn uwch na'r ffoes ac, o ganlyniad, mae'n rhedeg ar y llwybr yn hytrach na'r ffoes. Bwriadai DWO ymweld yn fuan wedyn ond, ni dderbyniwyd ymateb pellach.

ch) **Torri Coed ar Lwybr Ceffyl ger Penfôr, Bwlchtocyn**
Copi, er gwybodaeth, o gŵyn parthed yr uchod. Deallwyd, erbyn hyn, mai Gwynedd sy'n gyfrifol wrth geisio datrys y gwlybaniaeth ar y llwybr. Penderfynwyd ysgrifennu i ofyn am gynllun o'r gwaith er mwyn i'r Cyngor hwn roi mewnbwn a'i gadarnhau.

13. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Bwletin mis Ebrill***
Cytunodd Pwyllgorau Ardal ULlC ledled Cymru ddefnyddio e-bost o hyn ymlaen ar gyfer derbyn gohebiaeth.
ii) ***Digwyddiad ar y Cyd â'r SLCC***
. Hysbyseb y cynhelir yr uchod yn Stadiwm Liberty, Abertawe, ar Fai 15fed.

b) **Heddlu Gogledd Cymru a Safonau Masnach Gwynedd a Môn – Codi Ymwybyddiaeth o Dwyll a Sgamiau yn ein Hardal**
Gwahoddiad i fynychu sesiwn hyfforddi ar yr uchod yng Nghanolfan Porthmadog ar Fai 15fed rhwng – neb am fynd.

c) **Cyng. Mike Parry, Pwllheli - Mater Brys - Israddio Bangor! Cau Adran Argyfwng Uned Fasgwlar Ysbyty Gwynedd**
Cais am gefnogaeth gwrthwynebu bwriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr o israddio'r gwasanaeth fasgwlar yn Ysbyty Gwynedd a'i ganoli yn Ysbyty Glan Clwyd; penderfynwyd ei gefnogi.

ch) **Comisiynydd y Gymraeg – Neges oddi wrth Aled Roberts**
Neges oddi wrth y Comisiynydd newydd yn cyflwyno'i hun.

d) **Mike Jones, Ysgol y Gyfraith Prifysgol Lerpwl – Cais am Gyfraniad at Gyfieithu Llyfr am Chwiorydd Isambard Owen, Glynmelin, Aber-soch**
Ymchwiliodd yr uchod i hanes y ddwy chwaer a bwriada gyhoeddi llyfr dwyieithog amdanynt yn ystod yr haf. Rhoddodd fraslun o'r llyfr – a fwriada ei ariannu ei hun –

ac awgrymodd Cyn-gynghorydd Wyn Williams iddo wneud cais am gyfraniad at gostau cyfieithu'r llyfr i'r Cyngor; penderfynwyd cyfrannu £250.00.

dd) **Cyflenwad Trydan Ciosg Llanengan**
Cefnoga Tîm Rheoli ScottishPower gyflenwad trydan newydd i'r ciosg er mwyn lleoli diffribilwr ynddo.

e) **Poster Lleoliad Diffribilwyr Aber-soch**
Yn dilyn derbyn cais, llwyddwyd cael poster dwyieithog i nodi lleoliadau diffribilwyr ym mhentref Aber-soch i'w arddangos yn hysbysfwrdd y Cyngor.

14. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/1091/39/TC	Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd ar gyfer estyniad cefn presennol, anecs gwyliau hunan gynhaliol a modurdy domestig ar wahân - Heulwen, Llangian **- Caniatawyd y Dystysgrif Cyfreithloni'n unig**
C19/0059/39/LL	Cais Ôl-weithredol i gadw mynedfa gerbydol a man parcio cerbydau **–** Tegfan Bach, Lôn Gwydryn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0089/39/LL	Trosi llofft gan adeiladu dwy ffenestr gromen i'r prif edrychiadau **–** Lleifior, 12 Maes Awel, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0111/39/LL	Codi modurdy at ochr yr eiddo â balconi uwchben **–** Tegfryn, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0116/39/LL	Modurdy dwbl ar wahân, ynghyd â llwyfan bren o flaen yr eiddo **–** 4 Cae Du, Aber-soch – **Gwrthod**
C19/0128/39/LL	Estyniad deulawr i flaen yr eiddo ac addasiadau i'r ffenestr gromen flaen bresennol **–** Faircross, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0150/39/LL	Estyniad unllawr ochr **–** 3 Stad Cornwall, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0182/39/LL	Estyniad unllawr ar flaen yr eiddo **–** Tŷ Newydd, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0183/39/DA	Diwygiad ansylweddol i gais C16/0511/39/LL i ymestyn lled estyniad – Llwyn Impia, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C19/0187/39/DA	Diwygiad di-faterol i Ganiatâd C18/0650/39/LL er gosod ffenestr gromen tri bae yn lle un – Talfor, Mynytho – **Gwrthod**
C19/0260/39/DA	Diwygiad di-faterol i Ganiatâd C18/1069/39/LL er cyfnewid ffenestr do math Velux â balconi integrol â ffenestr gromen a tho llechi ac yn cynnwys balconi parhaol fel yn flaenorol **–** The Wheelhouse, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C18/1191/39/AM	Datblygiad o bum llety cartref gwyliau preswyl deulawr - Y Glyn, Lôn Garmon, Aber-soch

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ebrill (Rh/S 002230) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £517.92 (Rh/S 002226 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)

b) Cyngor Gwynedd – £8051.38 (Rh/S 002217 – Cytundeb Glanhau a Chloi'r Toiledau)
c) Cyngor Gwynedd – £578.60 (Rh/S 002228 – Treth y Toiledau)
ch) Casglwr Trethi – £5.14 (Rh/S 002229 – Talu Wrth Ennill)
d) Mike Jones – £250.00 (Rh/S 002231 – Cyfraniad at Gyfieithu Llyfr am Chwiorydd Isambrad Owen, Glynmelin, Aber-soch)
dd) E-on – £21.37 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau

a) Toiledau – £69.30 (£35.40 a £33.90 – Arian Mynediad)
b) Siân Goodman Jones – £16.00 (Rhent 2018-2019 Cae'r Plwy', Mynytho)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mai 8fed, 2019 am saith o'r gloch – **Cyfarfod Blynyddol a Misol**